PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**
**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**
Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 6**

# *Carfanau Pwyso 2: Dulliau Dylanwadu ac Effeithiolrwydd*

## Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics
Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru | 2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad. |
| Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig | 2.2.3: Ymddygiad pleidleisio. |
| Adnodd 5: Carfanau pwyso 1: Nodweddion a mathau | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| **Adnodd 6: Carfanau pwyso 2: Dulliau Dylanwadu** | **2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth.**<br>**– Sut mae carfanau pwyso yn dylanwadu: mannau mynediad; dulliau gan gynnwys gweithredu uniongyrchol a lobïo; defnyddio'r cyfryngau; aelodaeth.**<br>**– Ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant carfanau pwyso gydag enghreifftiau.**<br>**– Dadleuon ynghylch p'un a yw carfanau pwyso yn atgyfnerthu democratiaeth neu'n ei gwanhau.** |
| Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1: Nodweddion a mathau | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |

**Awduron yr adnodd:**

Dr. John Glyn

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

Golygwyd E-lawlyfr 1 gan Dr. Elin Royles.

# GWYBODAETH GRAIDD

## Ble a sut mae carfanau pwyso yn ceisio dylanwadu?

Mae cyswllt cryf rhwng y math o bwyntiau mynediad a ddewisir gan garfanau pwyso a'r dulliau a ddefnyddir i ddylanwadu. Bydd nifer o ffactorau'n dylanwadu ar eu penderfyniadau gan gynnwys sut mae grym wedi cael ei ddosbarthu o fewn system wleidyddol, amcanion ac adnoddau'r garfan.

Mae natur aml-haenog grym gwleidyddol yn effeithio ar garfanau pwyso wrth i lunio penderfyniadau ddigwydd ar nifer o haenau o lywodraeth:

: Rhyngwladol – trefniadau llywodraethiant byd-eang fel yr Sefydliad Masnach y Byd (*World Trade Organisation, WTO*)

: Cyfandirol – yr Undeb Ewropeaidd

: Gwladwriaethol – e.e. Llywodraeth San Steffan a'r Thŷ'r Cyffredin

: Is-wladwriaethol – e.e. Llywodraeth a Senedd Cymru (Cynulliad); Llywodraeth a Senedd yr Alban

: Llywodraeth leol – e.e. awdurdodau lleol.

## Pa ddulliau a ddefnyddir gan garfanau pwyso?

Mae'r dulliau dylanwadu a ddefnyddir gan garfanau pwyso yn dibynnu ar i ba raddau maent yn ymdebygu i garfan fewnol neu garfan allanol (gweler Adnodd 5 am fwy o wybodaeth). Mae carfanau mewnol yn fwy tebygol o allu defnyddio mannau mynediad yn uniongyrchol i mewn i gyrff llywodraethol. Ymysg y rhesymau am hyn mae eu hawdurdod, eu harbenigedd, bod eu diddordebau'n cyd-fynd â'r llywodraeth, neu bod enw da ganddynt am gynnig cyngor synhwyrol yn y gorffennol. Mae'r statws hwn hefyd yn golygu bod yn rhaid derbyn y cyfyngiadau o orfod parchu'r llywodraeth, cyfaddawdu, cefnogi safbwyntiau gyda thystiolaeth ac osgoi defnyddio bygythiadau. Cysylltir carfanau allanol â dibynnu mwy ar ddulliau sy'n ceisio dylanwadu ar y farn gyhoeddus drwy ffurfiau o brotest a gweithredu uniongyrchol. Fel gwelwyd yn Adnodd 5, mae'n debygol bod carfanau allanol yn gwneud rhywfaint o ddefnydd o bwyntiau mynediad i'r llywodraeth hefyd.

**Lobïo** yw: gweithgaredd sy'n ceisio dylanwadu ar wleidyddion i gefnogi polisi neu ymgyrch benodol.

Gellir deall gweithredu uniongyrchol ar gontinwwm sy'n amrywio o weithredu heddychlon o fewn y gyfraith mewn modd heddychlon, di-drais i rai mathau sy'n torri'r gyfraith fel trais yn erbyn unigolion:

**Gweithgareddau dwysder isel / heddychlon**

deisebau cyhoeddus

llythyru

ffonio

hysbysebu

ysgrifennu at bapurau newydd

ymuno â grŵp gweithredu

cysylltu â swyddogion

cysylltu ag aelodau etholedig

gorymdaith

gwrthdystio gyda phlacardiau

boicotio cwmnïau a chynnyrch

blocadau, meddiannu a tharfu

gweithredu ar y cyd rhyngwladol

gwrthod gweithredu / streicio

gwrthdystiadau – swnllyd ac efallai'n dreisgar

dinistrio eiddo

defnydd o drais wedi ei gynllunio

defnydd o fomiau llythyron

bomiau

llofruddiaethau

**Gweithgareddau dwysder uchel / treisgar**

Enghreifftiau o weithredu uniongyrchol yw'r mudiadau iaith sydd wedi bod yn weithgar yng Nghymru ers y 1960au a 'charfanau protest' eraill fel CND sydd yn draddodiadol wedi defnyddio gorymdeithio a gweithgareddau i gael dylanwad a chefnogaeth gyhoeddus. Pwrpas gweithredu uniongyrchol yw tynnu sylw at achos neu faterion allweddol. Gall fod yn weladwy iawn gan ennyn llawer o sylw'r cyfryngau. Wrth geisio asesu pa mor effeithiol yw gweithredu uniongyrchol, rhaid meddwl ble mae'n ceisio dylanwadu. Weithiau, gallant fod yn targedu cwmnïau a rhai sy'n ariannu gweithgareddau penodol i roi pwysau arnynt. Mewn rhai achosion, gall gwrthdystiadau bach wedi eu targedu fod yn fwy effeithiol na phrotest dorfol fawr. Er bod y rhan fwyaf o garfanau yn tueddu i ddefnyddio dulliau mwy heddychlon, mae newid wedi bod yn y degawdau diwethaf wrth i rai fod yn rhwystredig ag arafwch llywodraeth a defnyddio tactegau proffil uchel ac anghyfreithlon.

## Sut mae carfanau yn dylanwadu ar y lefel wladwriaethol?

Ar y lefel hon, adrannau gweithredol yw'r prif darged: gweinidogion y llywodraeth (gan gynnwys y Prif Weinidog) a'r gweision sifil. Byddant hefyd yn ceisio dylanwadu ar y Senedd (y ddau dŷ), pleidiau gwleidyddol, a barn ehangach.

Wrth ddylanwadu ar y llywodraeth, mae carfanau yn ceisio diogelu a hyrwyddo eu diddordebau neu eu hachos eu hunain, neu bolisïau penodol sy'n cael effaith arnyn nhw. Ceisir cael gwybodaeth gynnar ar argymhellion er mwyn ceisio dylanwadu ar sylwedd a manylion polisi'r llywodraeth. Os yn aflwyddiannus mewn ceisio newid barn y llywodraeth yn y lle cyntaf, bydd carfanau'n symud i lywio'r modd mae polisi yn cael ei weithredu er enghraifft dylanwadu ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n pennu sut fydd deddf yn cael ei gweithredu.

Ar yr un pryd, mae llywodraethau'n awyddus i ymwneud â charfanau am y rhesymau canlynol:

: eu bod yn elwa o wybodaeth neu arbenigedd penodol carfanau;

: i gael syniad o'r ymateb tebygol i bolisi gan y rhai fydd yn cael eu heffeithio (gan gynnwys unrhyw wallau a syniadau am welliannau);

: bod ymgynghori o flaen llaw yn gallu osgoi trafferth posibl yn nes ymlaen yn y broses;

: er mwyn ennyn cefnogaeth i'w cynorthwyo i wneud yr achos yn nes ymlaen yn y broses.

Gall carfanau grymus gael trafodaethau â gweinidogion, ond cyfarfodydd mwy rheolaidd gyda gweision sifil sydd fwyaf tebygol. Bydd hyn yn aml yn sgil bod nifer o gynrychiolwyr carfanau yn ymwneud â gweision sifil ar bwyllgorau sy'n cynghori'r llywodraeth gan gefnogi ystod o gysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol yn adrannau'r llywodraeth yn Whitehall.

Mae ymdrechion carfanau i ddylanwadu ar y Senedd yn fwy tebygol o ennyn sylw'r wasg na'u hymdrechion i ddylanwadu ar yr adrannau gweithredol. Er bod y Senedd yn tueddu i gael ei hystyried yn bwynt mynediad llai effeithiol, mae'n parhau'n bwysig. Ymysg y rhesymau mae llais annibynnol aelodau meinciau cefn, twf ym mhwysigrwydd pwyllgorau dethol a'r cynydd yn nifer y cyrff lobïo proffesiynol. Yn yr un modd, mae Tŷ'r Arglwyddi wedi cynyddu fel pwynt mynediad i garfanau pwyso i ddiwygio neu oedi deddfwriaeth a gyflwynwyd gan y llywodraeth. Gall carfanau geisio dylanwadu ar y Senedd drwy ffyrdd yn cynnwys cyflwyno deisebau, lobïo'r Senedd ac ASau unigol, cylchredeg gwybodaeth a llythyron i'r holl ASau a'r Arglwyddi yn codi materion penodol e.e. cyflwyno gwelliannau i ddeddfwriaeth. Bydd carfanau hefyd yn targedu'r Senedd ac ASau penodol yn achos Mesur Aelod Preifat (mesur wedi ei gyflwyno gan ASau nad ydynt yn aelod o'r llywodraeth) yn enwedig gan fod rhai blaenorol ar faterion moesol wedi llwyddo e.e. newid y ddeddf ar gyfunrywioldeb (*homosexuality*), ysgaru ac erthylu.

Mae dylanwadu ar y Senedd ac ar ASau unigol wrth gwrs yn golygu dylanwadu ar y pleidiau. Gall carfanau hefyd geisio dylanwadu ar y pleidiau yn fwy uniongyrchol, gan gynnwys drwy roddion, neu geisio sicrhau ymrwymiadau penodol yn eu maniffestos.

Sefydliad cynyddol bwysig i garfanau pwyso herio polisi'r llywodraeth yw'r llysoedd. Gwneir cais yn gynyddol am adolygiad cyfreithiol ar nifer eang o faterion ac mae'r cyd-destun deddfwriaeth hawliau dynol wedi cynyddu'r sgôp i herio polisïau a phenderfyniadau cyfredol y llywodraeth drwy'r llysoedd.

Mae dylanwadu ar farn wybodus ac ar y farn gyhoeddus hefyd yn bwysig i garfanau pwyso. Yn y categori cyntaf mae cyrff proffesiynol neu gyfryngau mwy arbenigol (e.e. yr Economist, Spectator, neu'r New Statesman) sydd yn aml yn ddylanwadol ymysg y rhai mewn grym. Ochr yn ochr â hyn, gweithgaredd mwyaf amlwg carfanau yw dylanwadu ar y farn gyhoeddus er bod hyn yn aml yn cymryd llawer o waith ac yn gostus. Gallant godi ymwybyddiaeth gyhoeddus drwy ddefnyddio ystod o ddulliau ac mae cael dylanwad ar y cyfryngau torfol yn aml yn allweddol er mwyn dylanwadu ar y farn gyhoeddus yn effeithiol.

## Sut mae carfanau yn dylanwadu ar y lefel is-wladwriaethol: Cymru

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae datganoli gwleidyddol wedi arwain at greu mannau mynediad ychwanegol i garfanau pwyso ar faterion polisi a hyn wedi ei sbarduno gan y pwyslais ar 'wleidyddiaeth newydd' a chynhwysol wrth ymgyrchu am ddatganoli. Y gobaith oedd y byddai'r cyrff datganoledig yn arwain at gyfleon i ystod o ddiddordebau ymwneud â'r broses wleidyddol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn achos Cymru, gwelwyd ehangu'r ystod cyfleon posibl i garfanau ddylanwadu mewn ystod o feysydd polisi nad oeddent yn rhan o'r criw breintiedig yng nghyfnod y Swyddfa Gymreig cyn 1999. Mae nifer yn hawlio bod y lefel mynediad yn gwrthgyferbynnu â San Steffan sy'n fwy caeedig. Cynyddwyd y mannau mynediad yn enwedig oherwydd y pwyslais ar ymgynghori drwy gyfrwng pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a thrwy bwyllgorau'r llywodraeth (e.e. Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn sgil dyletswydd statudol ar i'r Llywodraeth ymgynghori gyda'r sector gwirfoddol). Gwelir hefyd fod rhai carfanau yn cyfuno dulliau ffurfiol ac anffurfiol o ddylanwadu ar y lefel wleidyddol, drwy ymgynghorwyr arbennig Gweinidogion a gweision sifil. Mae nodweddion megis maint y Cynulliad a chysylltiadau blaenorol gwahanol Weinidogion ac Aelodau Cynulliad gyda charfanau pwyso yn gallu hwyluso perthnasau.

Wrth i rymoedd y Cynulliad gynyddu, mae mwy o fudd i garfanau geisio manteisio ar y mannau mynediad. Mewn ymateb, mae nifer o gyrff sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig wedi addasu eu strwythurau i gynyddu eu capasiti i gael dylanwad, drwy un ai sefydlu swyddfeydd yng Nghymru am y tro cyntaf neu fuddsoddi mwy o adnoddau ariannol a staffio. O'r herwydd maen nhw wedi datblygu bydolwg Cymreig cryfach.

Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod rhai carfanau yn ystyried bod ymwneud â phrosesau polisi, deisebu a deddfu yn drwm gan alw am lawer o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd. Mae consyrn hefyd bod rhai sy'n derbyn cyllid gan y Llywodraeth yn datblygu perthnasau mwy breintiedig nag eraill. Goblygiadau hyn yw bod rhai cyrff mewn sefyllfa well nag eraill i wneud y mwyaf o'r mannau mynediad gyda goblygiadau democrataidd negyddol.

Rhai o'r camau polisi yng Nghymru mae carfanau pwyso wedi dylanwadu arnynt:

Sefydlu Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn

Newidiadau cyfreithiol i'r system rhoi organau yng Nghymru

Sustrans Cymru a'r Ddeddf Teithio Llesol yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau llwybrau diogel ar gyfer cerdded a beicio.

## Pa mor llwyddiannus yw carfanau pwyso?

Mae mesur llwyddiant carfanau pwyso yn gallu bod yn heriol iawn, yn enwedig pan nad oes perthynas uniongyrchol a chlir rhwng eu gweithgareddau a newid mewn polisi, yn enwedig gan ei bod hi'n debygol iawn fod carfanau a diddordebau eraill yn ceisio dylanwadu ar yr un pryd. Mae hyn yn adlewyrchu heriau ehangach wrth asesu grym a dylanwad wrth astudio gwleidyddiaeth.

Mae datblygu dulliau i asesu effeithiolrwydd carfanau pwyso yn fater o drafodaeth o fewn y llenyddiaeth. Tri mater allweddol sy'n rhan o deipoleg gan Grant (1995: 130) yw:

: Yr amgylchedd sy'n effeithio ar garfanau yn y meysydd maen nhw'n ceisio trefnu (nodweddion aelodaeth a'r gystadleuaeth am aelodaeth a dylanwad)

: Yr adnoddau sydd ar gael i garfan (gan gynnwys strwythurau mewnol; gallu gweithredu aelodau; adnoddau ariannol a staffio; a dewis o ran strategaeth)

: Y cyd-destun allanol economaidd a gwleidyddol (gan gynnwys barn gyhoeddus; y blaid mewn grym; cyd-destun economaidd; a pherthynas ag adrannau o'r llywodraeth)

## Carfanau a Democratiaeth

Wrth ystyried a yw carfanau pwyso yn atgyfnerthu neu'n gwanhau democratiaeth, rhaid ystyried twf trawiadol cwmnïau lobïo proffesiynol mewn blynyddoedd diweddar. Am arian, mae'r rhain yn cynnig dylanwadu ar bolisi ac yn gallu darparu cysylltiadau lefel uchel o fewn llywodraeth, cysylltiadau sydd weithiau wedi eu meithrin wrth weithio i blaid wleidyddol rymus neu mewn llywodraeth. Mae nifer o sgandalau wedi bwrw gwleidyddiaeth San Steffan o ran talu Aelodau Seneddol i ddefnyddio eu dylanwad o blaid polisïau penodol. Arweiniodd hyn at argymhellion i geisio cyfyngu ar weithredu o'r fath. Yn ymarferol, mae sgandalau tebyg wedi parhau ochr yn ochr â chonsyrn ehangach fod angen cyfyngu ar ddylanwad cwmnïau lobïo. Yn San Steffan, mae hyn wedi arwain at gofrestr o lobiwyr proffesiynol. Mae'r ymchwiliad diweddaraf i lobïo yn y Cynulliad Cenedlaethol (2018) wedi argymell peilota cofrestr wirfoddol o lobïwyr proffesiynol ac mae anogaeth ar weinidogion ac Aelodau Cynulliad i gyhoeddi eu dyddiaduron o ymwneud â lobïwyr a charfanau diddordeb er mwyn bod yn fwy tryloyw o ran effaith grwpiau sy'n ceisio dylanwadu ar wleidyddion.

Cwestiynau sylfaenol yw:

: A yw'n iawn bod unrhyw garfan yn gallu rhoi pwysau anghymesur mewn modd sy'n effeithio ar benderfyniadau a wneir er lles y mwyafrif?

: A yw'n iawn bod arian yn gallu cael cymaint o ddylanwad?

: Hyd yn oed pan nad oes achos o lygredd, a bod cyllid wedi'i ddefnyddio'n gyfreithlon e.e. i brynu offer swyddfa yn unig, onid oes mantais annheg pan fo gan un corff yn sylweddol fwy o gyllid i gael dylanwad gwleidyddol na chorff arall?

**LLYFRYDDIAETH**

Grant, W. (2000). *Pressure Groups and British Politics* (Llundain: Palgrave).

Grant, W. (1995) *Pressure Groups, Politics and Democracy in Britain* (Llundain: Harverster Wheatsheaf)